------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Agenda – Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr – Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 16 Ionawr 2019

Amser y cyfarfod: 13.30

# 182(v4)

## 1 Cwestiynau i Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i'r Darpar Gwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit

(45 munud)

Gweld y Cwestiynau

## 3 Cwestiynau Amserol

(20 munud)

Gofyn i'r Prif Weinidog

**Mick Antoniw (Pontypridd):** Pa asesiad y mae'r Prif Weinidog wedi'i wneud o'r effaith a gaiff pleidlais Senedd y DU ar gytundeb Brexit Llywodraeth y DU ar 15 Ionawr 2019 ar Gymru?

Gofyn i Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth:

**Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn):** Pa drafodaethau mae'r Gweinidog wedi eu cael ynglŷn â dyfodol Wylfa Newydd?

## 4 Datganiadau 90 Eiliad

(5 munud)

Cynulliad Cenedlaethol Cymru National Assembly for Wales

## Cynigion o dan Reol Sefydlog 17.14 i ethol Aelodau i bwyllgorau

**NDM6922** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Carwyn Jones (Llafur) yn aelod o'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn lle Lee Waters (Llafur).

**NDM6923** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Vikki Howells (Llafur) yn aelod o'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn lle Jack Sargeant (Llafur).

**NDM6924** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Huw Irranca-Davies (Llafur) yn aelod o'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol yn lle Jane Hutt (Llafur).

**NDM6925** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Alun Davies (Llafur) yn aelod o'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol yn lle Vikki Howells (Llafur).

**NDM6926** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Jack Sargeant (Llafur) yn aelod o'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn lle Julie Morgan (Llafur).

**NDM6927** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Jenny Rathbone (Llafur) yn aelod o'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig yn lle Jayne Bryant (Llafur).

**NDM6928** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Vikki Howells (Llafur) yn aelod o'r Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu yn lle Jane Hutt (Llafur).

NDM6929 Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Jayne Bryant (Llafur) yn aelod o'r Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu yn lle Jenny Rathbone (Llafur).

NDM6930 Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Carwyn Jones (Llafur) yn aelod o'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau yn lle Jayne Bryant (Llafur).

NDM6931 Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Huw Irranca-Davies (Llafur) yn aelod o'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau yn lle Jack Sargeant (Llafur).

NDM6932 Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Jayne Bryant (Llafur) yn aelod o'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon yn lle Julie Morgan (Llafur).

NDM6933 Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol David Rees (Llafur) yn aelod o'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon yn lle Rhianon Passmore (Llafur).

NDM6934 Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Rhianon Passmore (Llafur) yn aelod o'r Pwyllgor Cyllid yn lle David Rees (Llafur).

NDM6935 Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Alun Davies (Llafur) yn aelod o'r Pwyllgor Cyllid yn lle Jane Hutt (Llafur).

NDM6936 Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Mark Reckless (Ceidwadwyr Cymreig) yn aelod o Bwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau yn lle Mohammad Asghar (Ceidwadwyr Cymreig).

**NDM6938 Elin Jones (Ceredigion)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Jack Sargeant (Llafur) yn aelod o Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau yn lle Lee Waters (Llafur).

## Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.3 i ethol Aelod i bwyllgor

**NDM6937 Elin Jones (Ceredigion)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.3, yn ethol Mohammad Asghar (Ceidwadwyr Cymreig) yn aelod o'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau yn lle Sian Gwenllian (Plaid Cymru).

## 5 Cynnig Cydsyniad Offeryn Statudol: Rheoliadau'r Amgylchedd Morol (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2018

(15 munud)

**NDM6913 Suzy Davies (Gorllewin De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cytuno, yn unol ag adran 8(1) o, a pharagraff 21(b) i Atodlen 7 i, Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, a Rheol Sefydlog 30A.10, bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn gwneud Rheoliadau'r Amgylchedd Morol (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2018, yn unol â'r Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol a gafodd ei osod yn y Swyddfa Gyflwyno ar 31 Rhagfyr 2018.

**Dogfen Ategol**

Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

## 6 Dadl ar Egwyddorion Cyffredinol y Bil Awtistiaeth (Cymru)

(60 munud)

**NDM6920 Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.11:

Yn cytuno i egwyddorion cyffredinol y Bil Awtistiaeth (Cymru).

Gosodwyd y Bil Awtistiaeth (Cymru) a'r Memorandwm Esboniadol gerbron y Cynulliad ar 13 Gorffennaf 2018.

**Dogfennau Ategol**

Adroddiad y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

Adroddiad y Pwyllgor Cyllid

Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Ymateb gan Paul Davies AC, sef yr Aelod sy'n gyfrifol, i'r adroddiadau gan Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon; Y Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

## 7 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau: Diogelwch Tân mewn Adeiladau Uchel Iawn (sector preifat)

(60 munud)

**NDM6917** John Griffiths (Dwyrain Casnewydd)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 'Diogelwch tân mewn adeiladau uchel iawn', a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 16 Tachwedd 2018.

Nodyn: Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 9 Ionawr 2019.

## 8 Dadl Plaid Cymru - Brexit Heb Gytundeb

(60 munud)

**NDM6918** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn gwrthod ymadawiad â'r Undeb Ewropeaidd heb gytundeb o dan unrhyw amgylchiadau.

2. Yn galw ar y Prif Weinidog i ofyn bod cyd-bwyllgor Gweinidogion y DU yn cael ei ailgynnull ar fyrder er mwyn ceisio cytundeb ar ddiystyru gadael yr Undeb Ewropeaidd heb gytundeb.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Gareth Bennett (Canol De Cymru)**

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn gresynu at y ffaith bod cytundeb ymadael drafft Llywodraeth y DU yn negyddu canlyniad y refferendwm yn sylweddol, drwy gadw'r DU yn yr undeb tollau am gyfnod amhenodol ac, i bob pwrpas, yn y farchnad sengl, gan ein hamddifadu hefyd o unrhyw lais ffurfiol neu bleidlais ym mhenderfyniadau'r Undeb Ewropeaidd.

2. Yn cymeradwyo ymadawiad â'r Undeb Ewropeaidd heb gytundeb ac o dan delerau Sefydliad Masnach y Byd, er mwyn bodloni dymuniadau pobl y DU, a Chymru, a bleidleisiodd yn bendant i adael yr Undeb Ewropeaidd.

3. Yn galw ar Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru i gofleidio adferiad sofraniaeth genedlaethol Prydain y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd.

Draft Agreement on the withdrawal of the United Kingdom of Great Britain and Northern Ireland from the European Union and the European Atomic Energy Community (Saesneg yn unig)

*[Os derbynnir gwelliant 1, caiff gwelliant 2 ei ddad-ddethol]*

**Gwelliant 2 - Darren Millar (Gorllewin Clwyd)**

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio'n adeiladol gyda Llywodraeth y DU wrth iddi geisio rhoi canlyniad y refferendwm ar aelodaeth y Deyrnas Unedig o'r Undeb Ewropeaidd ar waith.

## 9 Cyfnod pleidleisio

## 10 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM6914** Jack Sargeant (Alun a Glannau Dyfrdwy)

Contract ar gyfer gwell cymorth cyntaf iechyd meddwl yn y gweithle.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 22 Ionawr 2019

Eitem 1

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 09/01/2019 i'w hateb ar 16/01/2019

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i Ysgrifenyddion y Cabinet ar ôl cwestiwn 2.

## Y Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth

**Llyr Gruffydd** *Gogledd Cymru*

1 OAQ53189

**(w)**

Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i hybu economi trefi gwledig?

**Rhianon Passmore** *Islwyn*

2 OAQ53203

**(e)**

Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi polisi datblygu economaidd rhanbarthol i gynorthwyo cymunedau yn Islwyn?

**John Griffiths** *Dwyrain Casnewydd*

3 OAQ53172

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am rôl dinasoedd o fewn datblygu economaidd yng Nghymru?

**David Rees** *Aberafan*

4 OAQ53201

**(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael ag awdurdodau lleol ynghylch gwella gwasanaethau bysiau lleol i gwm Afan?

**Hefin David** *Caerffili*

5 OAQ53199

**(e)**

Sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu datblygu perthynas â chwmnïau mawr sydd wedi'u lleoli yng Nghymru?

**Mark Isherwood** *Gogledd Cymru*

6 OAQ53164

**(e)**

Sut y mae Llywodraeth Cymru yn anelu i wella'r seilwaith trafnidiaeth yng Ngogledd Cymru?

**Janet Finch-Saunders** *Aberconwy*

7 OAQ53176

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am welliannau i'r A55?

**Helen Mary Jones** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

8 OAQ53174

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr oedi parhaus o ran cyhoeddi canlyniad y broses arfarnu cam dau ar gyfer gorsafoedd rheilffordd newydd a ddechreuodd yn ystod haf 2017?

**Sian Gwenllian** *Arfon*

9 OAQ53177

**(w)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynllun ffordd osgoi Caernarfon i Bontnewydd?

**Mandy Jones** *Gogledd Cymru*

10 OAQ53169

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog amlinellu gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Gogledd Cymru?

**Jack Sargeant** *Alun a Glannau Dyfrdwy*

11 OAQ53191

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am fuddsoddi mewn seilwaith digidol yng ngogledd-ddwyrain Cymru?

**Mohammad Asghar** *Dwyrain De Cymru*

12 OAQ53179

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog amlinellu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer tyfu economi Cymru yn 2019?

**Jack Sargeant** *Alun a Glannau Dyfrdwy*

13 OAQ53192

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am fuddsoddiad economaidd yng ngogledd Cymru?

**Mike Hedges** *Dwyrain Abertawe*

14 OAQ53161

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch pa sectorau diwydiannol sydd â gwendidau sy'n gyfrifol am werth ychwanegol gros isel Cymru?

**Vikki Howells** *Cwm Cynon*

15 OAQ53162

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am waith tasglu'r cymoedd?

## Cwnsler Cyffredinol

**Llyr Gruffydd** *Gogledd Cymru*

1 OAQ53198

**(w)**

Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o effaith unrhyw fath o Brexit ar economi gogledd-ddwyrain Cymru?

**Adam Price** *Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr*

2 OAQ53208

**(w)**

Pa drafodaethau y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'u cael gyda Llywodraeth Iwerddon ynglŷn â Brexit?

**Darren Millar** *Gorllewin Clwyd*

3 OAQ53210

**(e)**

Pa gyfleoedd y mae Llywodraeth Cymru wedi'u nodi ar gyfer Cymru o ganlyniad i ymadawiad y DU o'r UE?

**Leanne Wood** *Rhondda*

4 OAQ53207

**(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'u cael gyda'r Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip ynghylch sut y bydd Llywodraeth Cymru yn diogelu menywod a lleiafrifoedd rhag troseddau casineb yn dilyn Brexit?

**Helen Mary Jones** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

5 OAQ53196

**(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'u cael â Llywodraeth y DU ynghylch cynnal y gallu i drosglwyddo cymwysterau proffesiynol ar gyfer staff sy'n gweithio yn y gwasanaeth iechyd, yn enwedig nyrsys, os bydd Brexit yn digwydd?

**Vikki Howells** *Cwm Cynon*

6 OAQ53187

**(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'u cael â Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth ynghylch paratoi busnesau yng Nghymru wrth baratoi ar gyfer gadael yr Undeb Ewropeaidd?

**Leanne Wood** *Rhondda*

7 OAQ53206

**(e)**

A wnaiff y Cwnsler Cyffredinol ddatganiad am yr hyn a ddaw ynlle cronfeydd strwythurol yr UE yn y Rhondda?

**Rhun ap Iorwerth** *Ynys Môn*

8 OAQ53185

**(w)**

Pa drafodaethau y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'u cael â Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth am ddiogelu porthladd Caergybi yn wyneb y posiblrwydd o Brexit heb gytundeb?

**Sian Gwenllian** *Arfon*

9 OAQ53178

**(w)**

A wnaiff y Cwnsler Cyffredinol roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau i warchod hawliau pobl Cymru yn sgil gadael yr Undeb Ewropeaidd?

**Bethan Sayed** *Gorllewin De Cymru*

10 OAQ53183

**(e)**

Pa asesiad y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'i wneud o sut y bydd y newidiadau arfaethedig i reolau mewnfudo a amlinellir yn y cytundeb arfaethedig ar ymadael â'r UE yn effeithio ar Gymru?

**Adam Price** *Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr*

11 OAQ53211

**(w)**

Pa asesiad y mae’r Cwnsler Cyffredinol wedi’i wneud o effaith Brexit ar economi Cymru?

**Jack Sargeant** *Alun a Glannau Dyfrdwy*

12 OAQ53193

**(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'u cael gyda Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth ynglŷn â chymorth i fusnesau yng ngogledd Cymru yn dilyn Brexit?

**Bethan Sayed** *Gorllewin De Cymru*

**13** OAQ53181

**(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynghylch sut y bydd Brexit yn effeithio ar reolau cymorth gwladwriaethol presennol?

**Janet Finch-Saunders** *Aberconwy*

**14** OAQ53184

**(e)**

A wnaiff y Cwnsler Cyffredinol ddatganiad am y gwaith y mae Llywodraeth Cymru ei wneud i wella hygyrchedd deddfwriaeth ddatganoledig i'r cyhoedd?

**Helen Mary Jones** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

**15** OAQ53197

**(e)**

Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU am y ffioedd a godir ar ddinasyddion yr UE sy'n gwneud cais i gynllun setliad yr UE i gofrestru ar gyfer statws sefydlog a statws cyn-sefydlog?